## Helpu pobl gydag anabledd i bleidleisio



Dylai pobl ag anabledd fod yn gallu pleidleisio.




Dylent gael y gefnogaeth gywir i allu pleidleisio dros y person a ddewisir.




### Gwybodaeth Amdanom Ni

Y Comisiwn Etholiadol sy'n gyfrifol am etholiadau yn y DU.



Mae'r Comisiwn Etholiadol yn annibynnol.

Made with Photosymbols



Mae'n rhaid i'r Comisiwn Etholiadol i greu gwybodaeth i **Swyddogion Canlyniadau** am sut i'w gwneud yn haws i bobl ag anabledd bleidleisio mewn **gorsafoedd pleidleisio**.



## Beth wnaethom ni

Bûm yn siarad â nifer o bobl, elusennau a grwpiau am y pethau sy'n eu gwneud yn anodd i bobl ag anabledd bleidleisio mewn **gorsafoedd pleidleisio.**



Fe wnaethom ofyn iddynt i ddweud wrthym beth fyddai'n gwneud hi'n haws i bobl ag anabledd i bleidleisio.



Defnyddiwyd yr hyn a ddywedodd pobl wrthym i ysgrifennu'r wybodaeth ar gyfer y **Swyddogion Canlyniadau**.

Made with Photosymbols




Dywedodd rhai grwpiau wrthym y byddai’n dda cael fersiynau eraill o wybodaeth am:

- y gwahanol fathau o etholiadau
- sut mae cofrestru i bleidleisio
- sut mae gwneud cais i bleidleisio os na allwch fynd i'r **orsaf bleidleisio**



Nid yw hyn yn y wybodaeth ar gyfer **Swyddogion Canlyniadau** ond rydym yn meddwl sut y gallwn wneud hyn.



Dywedodd nifer o bobl wrthym y byddai’n dda cael gwybodaeth cyn pob etholiad am:

- yr **ymgeiswyr**
- y pleidiau



Gofynnodd pobl hefyd am wybodaeth am **bolisïau** a **maniffestos** pob plaid.




Darperir y wybodaeth hon gan yr **ymgeiswyr** a'r pleidiau.



Rydym wedi dweud wrth bleidiau gwleidyddol y byddai’n syniad da gwneud yn siŵr:


- bod y wybodaeth yn hawdd i’w darllen a'i deall
- bod gan bawb ddigon o amser i ddarllen y wybodaeth
- bod holl fersiynau gwahanol o'r **maniffestos** yn barod ar yr un pryd



Rhowch wybod i ni beth yw eich barn am y wybodaeth ar gyfer **Swyddogion Canlyniadau.**



Gallwch ddarllen y wybodaeth ar gyfer **Swyddogion Canlyniadau** yma.




## Sut mae rhoi gwybod i ni beth yw eich barn

Dyma'r fersiwn hawdd ei darllen o'r cwestiynau am y wybodaeth i **Swyddogion Canlyniadau.**




Mae fersiynau eraill o'r cwestiynau yma.

Gallwch hefyd:




- ateb y cwestiynau ar-lein (ddim yn hawdd eu darllen). Os atebwch y cwestiynau ar-lein, ni allwch gadw eich atebion a dod yn ôl atynt yn hwyrach.



- ysgrifennwch atom:
  Tîm Canllawiau Gweinyddu Etholiadol
  Y Comisiwn Etholiadol
  Bunhill Row
  Llundain EC1Y 8YZ




- e-bostiwch
  EAConsultation@electoralcommission.org.uk

Made with Photosymbols




Mae angen i chi roi gwybod i ni beth yw eich barn erbyn **dydd Llun 17 Hydref 2022**.




Byddwn yn edrych ar farn pobl ac yn ysgrifennu ychydig mwy o wybodaeth gyda mwy o gwestiynau ym mis Tachwedd 2022.



Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y wybodaeth ar gyfer **Swyddogion Canlyniadau**, neu os oes angen cymorth arnoch i ateb y cwestiynau yn yr arolwg hwn, **ffoniwch ni ar 0333 103 1928**.

Made with Photosymbols

## Cwestiynau am y wybodaeth i Swyddogion Canlyniadau

### Cwestiwn 1: Pethau sy'n eu gwneud hi'n anodd i bobl bleidleisio




Gall nifer o bethau eu gwneud yn anodd i bobl bleidleisio mewn **gorsaf bleidleisio**.



Dylai'r wybodaeth ar gyfer **Swyddogion Canlyniadau** helpu hwy i ddeall ac edrych ar y pethau sy'n eu gwneud yn anodd i bobl ag anabledd bleidleisio.



Dylai'r wybodaeth helpu'r **Swyddogion Canlyniadau** i'w gwneud yn haws i bobl ag anabledd bleidleisio.



Efallai y bydd y **Swyddogion Canlyniadau** yn gallu gwneud pethau'n haws drwy:

- mynd i hyfforddiant
- rhoi gwybodaeth
- cael offer
- cefnogi pobl ag anabledd

Made with Photosymbols



A oes unrhyw bethau eraill sy’n gallu eu gwneud yn anodd i bobl ag anabledd bleidleisio mewn **gorsaf bleidleisio**?



☐ Oes

☐ Nac oes

☐ Ddim yn gwybod



Os mai **oes** oedd eich ateb, dywedwch wrthym beth yw'r pethau hyn. Hefyd sut y gallai'r **Swyddogion Canlyniadau** wneud hi’n haws i bobl ag anabledd bleidleisio mewn **gorsaf bleidleisio**.

Made with Photosymbols

## Cwestiwn 2: Offer




Gall offer weithiau gwneud hi'n haws i bobl ag anabledd bleidleisio gyda llai o help a heb orfod dweud wrth rywun arall i bwy maen nhw'n pleidleisio.



Dywed y wybodaeth ar gyfer **Swyddogion Canlyniadau** pa offer y mae'n rhaid iddynt eu cael yn yr **orsaf bleidleisio**.



Ydych chi'n meddwl bod y rhestr o offer a ddarperir i **Swyddogion Canlyniadau** yn yr **orsaf bleidleisio** yn ddigon i helpu'r rhan fwyaf o bobl ag anabledd?




- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Ddim yn gwybod



Os wnaethoch ateb **nac ydw**, beth ddylid ei ychwanegu at y rhestr o offer y mae'n rhaid i **Swyddogion Canlyniadau** gael mewn **gorsafoedd pleidleisio**?

Made with Photosymbols





## Cwestiwn 3: Offer ychwanegol

Mae'r wybodaeth yn dweud wrth **Swyddogion Canlyniadau** pa offer ychwanegol y gallent fod angen yn yr **orsaf bleidleisio**.



Dylai'r wybodaeth helpu **Swyddogion Canlyniadau** i benderfynu pa offer ychwanegol y dylid eu cael yn eu **gorsaf bleidleisio**.




Ydych chi'n meddwl y dylem newid y wybodaeth am yr offer ychwanegol a sut mae penderfynu beth i'w gael?

Made with Photosymbols



- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Ddim yn gwybod



Os mai **ydw** oedd eich ateb, rhowch ragor o wybodaeth i ni yma.



**Cwestiwn 4: Sicrhau bod staff yn gwybod pa gymorth y gallai fod ei angen ar bobl ag anabledd**

Dylai pawb sy'n helpu gyda'r etholiad wybod pa gymorth y gallai fod ei angen ar bobl ag anabledd i bleidleisio.

Made with Photosymbols




Dylai pawb sy'n helpu gyda'r etholiad gael hyfforddiant i'w helpu i gefnogi pobl ag anabledd.




Dylai'r wybodaeth ar gyfer **Swyddogion Canlyniadau** ddweud wrthynt pa mor bwysig ydyw i bawb gael hyfforddiant ar gefnogi pobl ag anabledd i bleidleisio.



Dylai'r wybodaeth helpu **Swyddogion Canlyniadau** i benderfynu pa hyfforddiant y dylai'r staff yn eu **gorsaf bleidleisio** ymgymryd ag ef.




A yw'r wybodaeth yn gyflawn ar gyfer **Swyddogion Canlyniadau** i sicrhau y gall staff gael hyfforddiant i gefnogi pobl ag anabledd i bleidleisio?



☐ Ydy

☐ Nac ydy

☐ Ddim yn gwybod

Made with Photosymbols



Os wnaethoch ateb **na**, pa wybodaeth arall sydd ei hangen ar y **Swyddogion Canlyniadau?**




**Cwestiwn 5: Rhoi gwybod i bobl**

Dylai **Swyddogion Canlyniadau** gynllunio sut y byddant yn rhoi gwybod i bobl ag anabledd pa gymorth sydd ar gael i bleidleisio.



Mae hyn yn cynnwys dod o hyd i sefydliadau eraill i weld a allant gydweithio i roi gwybod i bobl.

Made with Photosymbols




A yw'r wybodaeth ar gyfer **Swyddogion Canlyniadau** yn rhoi digon o wybodaeth am sut y gallant wneud hyn?



- ☐ Ydy
- ☐ Nac ydy
- ☐ Ddim yn gwybod



Os wnaethoch ateb **na**, pa wybodaeth ychwanegol ddylai fod gan y **Swyddogion Canlyniadau?**



## Cwestiwn 6: Beth weithiodd yn dda?

Ar ôl pob etholiad, dylai **Swyddogion Canlyniadau** weld os wnaethant y pethau cywir i gefnogi pobl ag anabledd i bleidleisio.




Dylent weld os aeth eu cynllun yn dda er mwyn rhoi gwybod i bobl pa gymorth oedd ar gael iddynt.



Dylent hefyd ofyn i'r bobl a bleidleisiodd a grwpiau lleol i roi gwybod iddynt beth aeth yn dda a beth allai fod wedi bod yn well.




Bydd y Comisiwn Etholiadol yn holi am yr offer a oedd gan y **Swyddogion Canlyniadau** i helpu pobl ag anabledd i bleidleisio.



A yw'r wybodaeth ar gyfer **Swyddogion Canlyniadau** o gymorth i weld beth aeth yn dda a beth y gellid ei newid i'w gwneud yn haws i bobl ag anabledd bleidleisio?



- [ ] Ydy
- [ ] Nac ydy
- [ ] Ddim yn gwybod



A wnewch chi ychwanegu unrhyw sylwadau am eich ateb yma.

|   |
|---|
|   |



## Cwestiwn 7: Unrhyw beth arall?

Os oes gennych unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am y wybodaeth ar gyfer **Swyddogion Canlyniadau**, ysgrifennwch ef yn y blwch isod.



## Cwestiwn 8: Amdanoch chi

Ticiwch y blwch sy'n eich disgrifio. Os ydych yn ateb y cwestiynau ar ran rhywun arall, ticiwch y blwch sy'n eu disgrifio hwy.

- ☐ Aelod o'r cyhoedd
- ☐ Swyddog Canlyniadau
- ☐ Swyddog Cofrestru Etholiadol
- ☐ Gweinyddwr etholiadol
- ☐ Elusen neu sefydliad trydydd sector

- ☐ Corff cyhoeddus
- ☐ Cymdeithas fasnach neu gorff cynrychioliadol
- ☐ Adran y Llywodraeth
- ☐ Plaid wleidyddol
- ☐ Grŵp ymgyrchu gwleidyddol
- ☐ Deiliad presennol neu ddarpar ddeiliad swydd etholedig
- ☐ Busnes Preifat
- ☐ Arall



Os wnaethoch ddewis arall, rhowch wybod i ni yn y blwch isod.

|  |
| --- |
|  |

Made with Photosymbols



## Manylion Cyswllt

Os hoffech chi roi eich enw a'ch cyfeiriad e-bost neu rif ffôn i ni, ysgrifennwch hwy yn y blychau isod.



Os rhowch eich enw a'ch cyfeiriad e-bost neu rif ffôn i ni, efallai y byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn â'r atebion a roddwyd gennych yn yr arolwg hwn.




**Eich enw**




**Eich cyfeiriad e-bost**



**Rhif teleffon**

Made with Photosymbols

## Geiriau a ddefnyddir yn y darlleniad hawdd hwn i ymgeiswyr



**Ymgeiswyr** Pobl y gallwch chi bleidleisio amdanynt mewn etholiad.



**Maniffesto** Maniffesto yw pan fydd plaid wleidyddol yn ysgrifennu ei chredoau, ei nodau a'i **pholisïau**.




**Polisïau** Syniadau neu gynlluniau am yr hyn y mae plaid wleidyddol wedi cytuno y bydd yn ei wneud am bwnc penodol. Er enghraifft, addysg neu iechyd.




**Gorsaf bleidleisio** Y lle yr ydych yn mynd i bleidleisio mewn etholiad.




**Swyddogion Canlyniadau** Y bobl sy'n gyfrifol am y dull y cynhelir etholiadau yn eu hardal. Yng Ngogledd Iwerddon, y Prif Swyddog Etholiadol yw'r Swyddog Canlyniadau.